

Gweithgareddau Ysgrifennu

Adroddiad



Yma ceir nifer o weithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu eich disgyblion gan ganolbwyntio'n benodol ar roi profiadau iddynt i fod yn greadigol.


Mae yma nifer o ffurfiau a gweithgareddau gwahanol i'w dewis a'u dethol yn ôl anghenion eich disgyblion.

Cofiwch fod yna gyflwyniad Pwerbwynt ar gael i gyd-fynd â'r gwaith.

CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
 - atalnod
 - atalnod llawn
 - gofynnod
 - dyfynnod
 - ebychnod
 - collnod
 - acen grom
 - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
 - ddefnyddio ffurfiau berfol
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh
7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
 - baratoi a chynllunio
 - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
 - prawf-ddarllen
 - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
 - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
 - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
 - difyrru
 - cyflwyno gwybodaeth
 - mynegi barn
 - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau
3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith
4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun.

Prif Nodweddion Adroddiad

Prif bwrpas adroddiad yw
i gyflwyno gwybodaeth ac
i ddisgrifio sut mae
pethau neu sut roeddent
yn arfer bod.



- teitl sydd yn cyfleu'r cynnwys
- cyflwyniad a pharagraff agoriadol
- paragraff i bob pwynt
- brawddeg / paragraff i gloi
- iaith ffurfiol
- amser presennol y ferf
(heblaw am adroddiad sydd yn sôn am ryw
ddigwyddiad sydd wedi bod)
- disgrifiadau ffeithiol
- yn y trydydd person

Enghraifft o Adroddiad

Daw'r enghraifft yma o CD-ROM Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol CBAC. Wrth ddefnyddio'r CD-ROM, mae cyfle gennych i ddadansoddi'r testun wrth aroleuo'r nodweddion iaith.



Ysgrifennu Adroddiad

Pengwiniaid

Adar y môr sy'n methu hedfan yw'r pengwiniaid ac mae tua phymtheg math neu rywogaeth ohonynt.

Mae gan bob math gefnau o liw tywyll a bronnau gwyn. Plu byr trwchus sydd ganddyn nhw ond mae gan rai o'r rhywogaethau grib o blu hir ar eu pennau a thwffiau o blu lliwgar ar eu gyddfau. Yn debyg i fwyaf o adar y môr, mae ganddynt draed gweog.

O dan eu crwyn, mae gan y pengwiniaid haenen o fraster i'w gwarchod rhag y tywydd oer.

Mae'r pengwin mwyaf, sef y pengwin ymerodrol, dros 1m o daldra. Dim ond tua 40cm o uchder yw'r math lleiaf.

Mae'r pengwin yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn y môr. Maen nhw'n nofio a phlymio'n gyflym a medrus. Maen nhw'n dal ac yn bwyta pysgod, cril ac ystifflogod. Ar adegau penodol o'r flwyddyn maen nhw'n dod i'r lan i baru ac i fagu.

Mae'r rhan fwyaf o'r pengwiniaid yn gwneud nythod ar y ddaear neu yn y glaswellt, tra bydd rhai yn dodwy eu hwyau mewn twneli. Un yn unig mae'r pengwin ymerodrol benywaidd yn ei ddodwy ac yna mae'r gwryw yn ei gadw'n gynnes trwy ei ddal ar ei draed o dan haenau o groen.

Mae rhai pengwiniaid mewn perygl. Mae llygredd yn niweidio eu hamgylchedd ac mae'r fflydoedd o gychod pysgota yn dal eu bwyd.

Testun mwy

Chwydd-wydr

Clirio

Hunanasesu

Nodweddion iaith

Amser presennol y ferf

Ansoddeiriau

Cysyllteiriau

Disgrifiadau ffeithiol

Gairiau ac ymadroddion technegol



Enghraifft o Adroddiad

Daw'r enghraifft yma o CD-ROM Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol CBAC. Wrth ddefnyddio'r CD-ROM, mae cyfle gennych i ddadansoddi'r testun wrth aroleuo'r nodweddion iaith.

Ysgrifennu Adroddiad

Y Broga

Anifail bach amffibiaidd yw'r broga. Mae amffibiaid yn medru byw ar y tir ac yn y dŵr.

Corff tew heb wddwg sydd gan y broga, ac mae ganddo goesau cefn hir cyhyrog a choesau blaen byr. Mae gan nifer o frogaod dafodau hir gludiog sy'n tasgu allan i ddal gwybed pan fyddan nhw angen bwyd.

Croen llaith seimllyd, heb flew, sydd gan y broga. Mae rhai mathau o frogaod yn gallu newid lliw eu croen er mwyn cuddio oddi wrth eu gelynion.

Yn y gwanwyn, mae'r broga'n dodwy wyau, mewn grifft, a chydag amser mae'r rhain yn deor yn benbyliaid. Yn raddol, mae'r penbyliaid yn newid yn frogaod. Metamorffosis yw'r enw ar hyn.

Mae garddwyr yn croesawu brogaod i'w gerddi oherwydd maen nhw'n bwyta'r pryfed sy'n dinistrio'r llysiau a'r blodau.

Testun mwy

Chwydd-wydr

Clirio

Hunanasesu

Nodweddion iaith

Amser presennol y ferf

Yn y trydydd person

Cysyllteiriau

Disgrifiadau ffeithiol

Geiriau a'u vmedroddion technegol

Enghraifft o Adroddiad

Daw'r enghraifft yma o CD-ROM Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol CBAC. Wrth ddefnyddio'r CD-ROM, mae cyfle gennych i ddadansoddi'r testun wrth aroleuo'r nodweddion iaith.



Dwyn i Gof

Trip i'r Ardd Fotaneg

Aeth ein dosbarth ni ar drip i'r Ardd Fotaneg dydd Gwener, Ebrill 20 fel rhan o'n prosiect gwyddoniaeth. Mae'r Ardd Fotaneg yn Llanarthne, felly roedd rhaid i ni fynd mewn bws.

Yn gyntaf roedd rhaid i ni gwrdd tu fas i'r ysgol am naw o'r gloch. Roedd rhaid i bawb ddod â brechdanau i ginio a chot law. Gadawodd y bws yn brydlon a chymerodd y siwrnai tua un awr.

Wedi gadael y bws cawsom ein rhannu i dri grŵp wrth y fynedfa. Roeddwn i a Bethan yng ngrŵp Mr. Ifans.

I gychwyn aeth ein grŵp ni i'r dde tuag at y llyn. Buom yn cael hwyl yn dal penbyliaid a chawsom weld lluniau lliw ar gylch bywyd y broga. Roedd Miss Griffiths, sy'n gweithio yn yr Ardd, yn egluro wrth ddangos y lluniau, a bu rhaid i ni lanw holiadur ar y diwedd.

Yna, aethom i fyni'r rhiw serth a chawsom gyfle i weld yr olygfa odidog o'n cwmpas gan gynnwys Tŵr Paxton ac adfeilion Castell Dryslwyn ar fryncyn yn y pellter.

Erbyn hyn roedd hi'n amser cinio a chawsom eistedd ar y lawnt i gael ein picnic. Cefais frechdanau ffowlyn, afal a sudd oren. Cawsom hwyl a chyfle i gael tipyn o sbort yn ystod yr hanner awr yma, a chyfle i'r athrawon gael hoe fach.

Wedyn aethom i'r tŷ gwydr anferth i weld planhigion rhyfedd o wledydd y byd. Dyma dŷ gwydr unbwa mwya'r byd. Roedd yn anhygoel. Wedi cerdded o gwmpas y tŷ gwydr a dysgu tipyn am nifer o'r planhigion, aethom i'r ystafell ddosbarth i weld fideo ar sut mae planhigion yn tyfu o hedyn. Roedd hyn yn ddiddorol iawn.

Yn olaf, aethom i ystafell "Meddygon Myddfai" i gael hanes sut roedd pobl ers slawer dydd yn defnyddio planhigion i wneud moddion. Hefyd, gwelsom rai o'r offer oedd yn arfer cael eu defnyddio i wella pobl. Cefais fy synnu gan rai ohonynt. Roedden nhw'n fy atgoffa i o siop y cigydd!

Dysgais lawer yn ystod y dydd ac roedd pawb o'r dosbarth wedi mwynhau'n fawr.

Testun mwy
Chwydd-wydr
Clirio
Hunanasesu

Nodweddion iaith

Amser gorffennol y ferf
Person cyntaf
Cysyllteiriau amser
Canolbwyntio ar grŵp
Iaith ddisgrifiadau
Sylweddol

Ysgrifennwch adroddiad am ddigwyddiad
arbennig yn eich ardal chi e.e. Sioe Amaethyddol



Pa wybodaeth allwch chi ei gynnwys yn yr adroddiad?



- dyddiad y digwyddiad
- y lleoliad
- prif weithgareddau
- cystadlaethau
- arddangosfeydd

Cofiwch - os yw'r sioe wedi bod, fe fyddwch yn defnyddio amser gorffennol y ferf.

Os ydych yn ysgrifennu adroddiad cyffredinol am y sioe fe fyddwch yn defnyddio
amser presennol y ferf.

Ysgrifennwch adroddiad am ryw greaduriaid.
e.e. adar, pysgod, cathod, gwenyn a.y.b.



Pa wybodaeth allwch chi gynnwys yn yr adroddiad?

- disgrifiad o'r creadur
- nodweddion corfforol
- cylch bywyd
- cynefinoedd
- effaith newid hinsawdd



Gwefannau defnyddiol:

<http://www.ccg.gov.uk/landscape--wildlife/habitats--species/marine/species/seabirds.aspx>

<http://www.menter-aberteifi.co.uk/bird-watching-west-wales.php>

Taflen Gynllunio

Casglu Syniadau



Testun:

Teitl sydd yn cyfleu'r cynnwys:

Cynnwys y Paragraff Agoriadol:

Paragraff i bob pwynt ychwanegol:

-
-
-
-

Geirfa Bwrpasol (ffeithiau / ansoddeiriau / cymariaethau):

Paragraff/brawddeg i gloi:



Adroddiad

Hunanasesu

Ydy'r gwaith yn cynnwys teitl sydd yn cyfleu'r cynnwys?	
Oes cyflwyniad a pharagraff agoriadol?	
Oes paragraff ar gyfer pob pwynt?	
Ydy amser y ferf yn gywir?	
Ydych chi wedi cynnwys disgrifiadau ffeithiol?	
Ydych chi wedi gwneud defnydd da o ansoddeiriau a chymariaethau?	
Oes brawddeg neu baragraff i gloi?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :